



Defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel yn y Cartref

Er bod systemau mewn lle gan ddarparwyr y rhyngrwyd i helpu diogelu eich plentyn, mae hi dal yn gymharol hawdd i blant gael mynediad i ddeunydd anaddas, boed hynny'n luniau, testun neu fideo. Rydym yn annog rhieni i osod y lefelau diogelwch o fewn Internet Explorer. Bydd gosod y cyfrifiadur mewn man teuluol, dim mewn ystafell wely, yn sicrhau y gallwch oruchwylio'r plant tra'n defnyddio'r we. Peidiwch â rhwystro eich plentyn rhag gael y cyfle i ddysgu trwy ddefnyddio'r amrediad eang o ddeunydd a gemau sydd ar y rhyngrwyd. Yn hytrach, trafodwch rheolau syml er mwyn eu cadw'n ddiogel. Gwnewch yn siwr eu bod yn deall pwysigrwyd y rheolau.

Rheolau diogelwch syml

Er mwyn cadw'n ddiogel fe ddylai eich plentyn:

- ofyn am ganiatad cyn defnyddio'r rhyngrwyd
- ond ddefnyddio gwefannau a ddewisoch gyda'ch gilydd
- ond gyrru ebost i bobl maent yn adnabod (beth am greu llyfr cyfeiriadau?)
- ofyn am ganiatad cyn agor ebost gan rywun diethr
- beidio defnyddio 'chatrooms'
- beidio defnyddio eu enw pan yn chwarae gemau ar y we (creu ffugenw)
- beidio datgelu cyfeiriad cartref, rhif ffôn cartref na rhif ffôn symudol
- beidio dweud wrth rywun diethr ble maent yn byw
- byth drefnu i gyfarfod gyda rhywun maent wedi 'gyfarfod' ar y rhyngrwyd
- ond ddefnyddio wegamera gyda bobl maent yn adnabod
- ddweud wrthy ch yn syth os ddönt ar draws wybodaeth anaddas

Defnyddio'r rheolau

Darllenwch drwy'r rheolau gyda eich plentyn a cadwch y canllawiau'n agos at y cyfrifiadur. Byddai hefyd yn syniad da i edrych yn achlysurol ar y gwefannau mae eich plentyn yn edrych arnynt e.e. try glicio ar 'history' a 'favourites'. Sicrhewch eich plentyn eich bod eisiau eu cadw'n ddiogel, nid eu hatal rhag ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Am wybodaeth bellach gweler:

CEOP: www.ceop.gov.uk

Think U Know: www.thinkuknow.co.uk

Childnet: www.childnet-int.org



Plant, TGCh a Diogelwch Electronig

Gwybodaeth i rieni a gwarchodwyr



Bwriad y daflen hon

Mae plant heddiw yn defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn gynyddol yn yr ysgol ac yn y cartref. Mae'r daflen yn esbonio:

- Sut mae plant yn defnyddio TGCh yn yr ysgol
- Sut mae defnyddio TGCh yn yr ysgol yn helpu plant i ddysgu
- Sut gall plant ddefnyddio'r we yn ddiogel yn y cartref
- Ble i ddarganfod gwybodaeth pellach

Sut mae eich plentyn yn defnyddio TGCh yn yr ysgol

Dysgir TGCh yn yr ysgol fel pwnc ac i gefnogi addysgu'r plant mewn pynciau eraill, gan gynnwys iaith a mathemateg. O fewn gwersi TGCh mae plant yn dysgu i ddefnyddio:

- **Prosesydd Geiriau** i ysgrifennu straeon, cerddi neu lythyrau
- **Cronfeydd data** i recordio gwybodaeth, e.e. anifeiliaid bach yr ardd
- **Taenlenni** i greu tablau, siartiau a graffiau
- **Publisher** i gynllunio posteri, cerdiau neu daflenni
- **Cyflwyniad amlgyfrwng** i gyflwyno testun, lluniau a sain
- **Rhaglenni arlunio** i greu lluniau a chynlluniau
- **Y we a CD-ROMs** i ddarganfod gwybodaeth
- **Ebot** i gysylltu ag athrawon a phlant mewn ysgolion eraill
- **Camerau digidol** i gadw cofnod o waith dosbarth neu ymweliad
- **Synhwyrdd electronig** i recordio gwahani-aethau mewn goleuni, sain a thymheredd
- **Robotiaid** i roi cyfarwyddiadau er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd
- **Efelychiadau** i archwilio sefyllfaoedd real a dychmygol
- **Cyhoeddi gwefan** i gyflwyno syniadau dros y we

Sut mae defnyddio TGCh yn y cartref yn helpu?

Mae defnyddio TGCh yn y cartref yn:

- gwella eu sgiliau TGCh
- rhoi dewis beth i ddysgu a sut i'w ddysgu
- cefnogi gwaith cartref ac adolygu
- gwella cyflwyniad gwaith
- cysylltu dysgu yn yr ysgol gyda dysgu yn y cartref
- yn gwneud dysgu'n hwyl

Canlyniadau defnyddio TGCh yn y cartref

- Gall TGCh wella cyrhaeddiad plant.
- Mae defnyddio TGCh yn y cartref ac yn yr ysgol yn datblygu sgiliau am fywyd.
- Mae plant yn mwynhau defnyddio TGCh.
- Mae defnyddio TGCh yn rhoi mynediad i amrediad ehangach o ddeunyddiau addysgu.

Sut allwch ddefnyddio TGCh yn y cartref

Nid defnyddio'r cyfrifiadur yn unig yw TGCh. Mae hefyd yn cynnwys camerau digidol ac offer pob dydd megis peiriant CD neu DVD. Gallwch helpu ddatblygu sgiliau TGCh drwy:

- ysgrifennu llythyr at berthynas
- gyrru ebot at ffrind
- darlunio llun ar y sgrin
- defnyddio'r we i ymchwilio pwnc dosbarth defnyddio gemau rhyngweithiol.

